

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX  
Dydd Iau, 28ain Medi, 2017 am 1.30 pm

Dolen gyswllt: Emma Wilkins (Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 26 Medi 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i [servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk](mailto:servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk).

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. AILDDATBLYGU CANOLFAN SIOPA DYFFRYN TAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sylweddol sy'n parhau i gael ei wneud ar safle hen ganolfan siopa Dyffryn Taf.

**3. CYFLAWNI'R CYNLLUN CORFFORAETHOL – "Y Ffordd Ymlaen"**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei Gynllun Corfforaethol – "Y Ffordd Ymlaen" dros y tair blynedd nesaf mewn hinsawdd o ostyngiadau ariannol pellach, trwy fuddsoddi yn nyfodol Rhondda Cynon Taf a thrwy wella a darparu gwasanaethau hanfodol mewn ffordd wahanol.

**(Tudalennau 11 - 18)**

**4. TRAWSNEWID GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION – DATBLYGU TAI GOFAL YCHWANEGOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch gweithredu strategaeth y Cyngor i foderneiddio opsiynau llety ar gyfer pobl hŷn a darparu tai gofal ychwanegol ar draws Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 19 - 62)**

**5. YR ADOLYGIAD PARHAUS O'R DDARPARIAETH LLEOLIADAU A LLETY AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi manylion i'r Cabinet ynghylch yr adolygiad parhaus o'r ddarpariaeth lleoliadau a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**(Tudalennau 63 - 82)**

**6. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (RHEOLI CŴN – PARC ABERDÂR I'R CYHOEDD)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sy'n rhoi canlyniadau'r ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd i'r aelodau o'r Cabinet.

**(Tudalennau 83 - 104)**

**7. DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO (RIPA) 2000**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, i alluogi'r Aelodau o'r Cabinet i adolygu defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (fel y'i diwygiwyd) yn 2016 - 2017 ac i bennu'r Polisiâu Corfforaethol ar gyfer defnydd y Ddeddf yn 2017 - 2018.

**(Tudalennau 105 - 110)**

**8. ADOLYGIAD O ALLU CYNLLUNIAU PARCIO A THEITHIO**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd, sy'n cyflwyno canfyddiadau yr Adolygiad o allu'r Cynllun Parcio a Theithio ac yn rhoi argymhellion i'w gweithredu ar gyfer Rhaglen Gyfalaf o Gynlluniau Parcio a Theithio sy'n codi o'r astudiaeth.

**(Tudalennau 111 - 118)**

**9. ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH CLUDO DISGYBLION I YSGOLION PRIF FFRWD**

Derbyn yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, gan alluogi'r Aelodau i archwilio'r ddarpariaeth cludo disgyblion i ysgolion prif ffrwd, er mwyn sicrhau bod lefel gyson o wasanaeth yn cael ei darparu ar draws y Fwrdeistref Sirol yn unol â pholisi presennol y Cyngor.

**(Tudalennau 119 - 130)**

**10. RHOI GWYBODAETH AM GYNNIG I DDATBLYGU PARC ECO YNG NGHYFLEUSTER RHEOLI GWASTRAFF BRYN PICA**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau o'r Cabinet am gynnig i ddatblygu Parc Eco yng Nghyfleuster Rheoli Gwastraff Bryn Pica.

**(Tudalennau 131 - 136)**

**11. BUDDSODDI MEWN CANOLFANNAU HAMDDEN A PHYLLAU NOFIO A CHYNLLUN HAMDDEN AM OES 2018-2020**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd ynglŷn â chynnydd Cynllun Aelodaeth Hamdden y Cyngor o'r enw "Hamdden am Oes", yn dilyn y rhaglen fuddsoddi ar sail blaenoriaeth 2016, ac i drafod rhagor o opsiynau ar gyfer buddsoddi.

**(Tudalennau 137 - 148)**

**12. CANOLFAN HAMDDEN CWM RHONDDA FACH – CYFLEOEDD BUDDSODDI AC AD-DREFNU**

Ceisio sêl bendith y Cabinet i gychwyn proses ymgynghori ar roi rhaglen arfaethedig o newidiadau ar waith yng Nghanolfan Hamdden Cwm Rhondda Fach, a fyddai'n ad-drefnu'r ganolfan i fod yn gyfleuster hamdden 'ochr-sych' sylweddol yn ogystal â chyfrannu at gynllun ariannol tymor canolig y Cyngor.

**(Tudalennau 149 - 158)**

**13. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**

## **Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** A Morgan (Chair)  
M Webber (Vice-Chair)  
R Bevan  
A Crimmings  
G. Hopkins  
M Norris  
(Mrs) j. Rosser  
R. Lewis  
(Mrs) C. Leyshon

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Chris Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol  
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael  
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd